# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 21AIN MEDI, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd:13.09.17)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
Elin Walker Jones
Olaf Cai Larsen
Linda Ann Jones
Peter Read
Sian Wyn Hughes
Dafydd Owen
Annwen Daniels
Rheinallt Puw
Sedd Wag

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Beth Lawton
Elfed Powell Roberts
Richard Medwyn Hughes
Dewi Wyn Roberts
Angela Russell

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Anwen J. Davies

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyhd ar 13 Mehefin 2017, fel rhai cywir.

(Copi'n amgaeedig)

## 5. DIGARTREFEDD 6 - 10

I ystyried adroddiad Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

## 6. TAI GWAG 11 - 16

I ystyried adroddiad Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

## 7. DARPARIAETH IECHYD YM MLAENAU FFESTINIOG 17 - 18

I benderfynu ar eiriad terfynol argymhellion y Pwyllgor Craffu Gofal Arbennig a gynhaliwyd ar 4 Medi 2017.

(Copi'n amgaeedig)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL
# 13.06.17

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Anwen J. Davies, Simon Glyn, E. Selwyn Griffiths, R. Medwyn Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts ac Angela Russell.

**Hefyd yn Bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Siân Wyn Hughes, Elfed Powell Roberts, Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant), Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc), W. Gareth Roberts (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cyngor ar gadeiryddiaethau craffu yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin 2017**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd R. Medwyn Hughes yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2017/18 yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin 2017.**

Derbyniwyd eglurhad gan y Swyddog Monitro ynglyn â phenodiadau sydd i'w gwneud gan y grwpiau gwleidyddol a thynnodd sylw at ofynion yn Adran 70 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac yn benodol Is-adran 6 sy'n gosod y trefniadau. Nodwyd ei bod yn ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu yn y cadeiryddiaethau hynny a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y Weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau. Yn unol â'r egwyddorion perthnasol, rhaid i'r ddarpariaeth benodi gael ei thalgrynnu i lawr i'r nifer cyfan agosaf, ac yn yr achos hwn 1.64, sy'n golygu 1 gadeiryddiaeth i'r grwp gweithrediaeth.

Felly ,dyrannir y cadeiryddiaeth yn seiliedig ar 3 Pwyllgor Craffu :

| | | |
|---|---|---|
| Grwp Annibynnol | - | 2 gadair |
| Grwp Plaid Cymru | - | 1 gadair |

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MONITRO PERFFORMIAD**

Adroddwyd y bydd yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol yn anfon cais i Aelodau'r Pwyllgor ddatgan diddordeb mewn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad (13.7.17 – Gwasanaeth Plant a Theuluoedd; 19.7.17 Gwasanaeth Oedolion) ac yn y cyfamser gwnaed y datganiadau o ddiddordeb gan Aelodau unigol a oedd yn bresennol fel a ganlyn:

Gwasanaeth Plant a Theuluoedd: Y Cynghorwyr Beth Lawton, Angela Russell

Gwasanaeth Oedolion: Y Cynghorwyr Linda Ann Wyn Jones, Angela Russell, Peter Read, Dewi Roberts, Elin Walker Jones.

Nodwyd y byddir yn enwebu 2 Aelod i fynychu am gyfnod o oddeutu 2 flynedd, er cael trefn cysondeb.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.20 am

Eitem 5

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Pwyllgor Craffu- Gofal** |
| **DYDDIAD** | **21ain o Fedi 2017** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng Craig ab Iago** |
| **TEITL** | **Adroddiad Digartrefedd** |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Mae Digartrefedd yn un o gyfrifoldebau statudol y Cyngor ac mae nifer o ddyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb iddynt. Mae'r cyfrifoldebau wedi eu hamlinellu yn Deddf Tai ( Cymru) 2014 ac mae'n ofynnol i'r Cyngor fod yn asesu anghenion unrhyw berson sydd yn cyflwyno yn ddigartref neu dan fygythiad a ddigartrefedd. Yn ogystal, mae dyletswydd i ddarparu llety i unigolion bregus ( mewn blaenoriaeth angen).

1.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw amlinellu rhai materion sy'n dylanwadu ar gyfeiriad gwasanaethau i bobl ddigartref yng Ngwynedd a dwyn sylw at elfennau sy'n creu pwysau.

**2.0 Dyletswyddau Statudol**

2.1 Daeth Deddf Tai (Cymru) 2014 i rym yn Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf newydd hon wedi gosod nifer o gyfrifoldebau statudol ychwanegol ar y Cyngor, gan gynnwys:

i) Dyletswydd i asesu anghenion lletya a chefnogaeth pawb sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd

ii) Dyletswydd i unrhyw un sy'n cael eu bygwth â digartrefedd o fewn 56 diwrnod i helpu atal digartrefedd

iii) Dyletswydd i roi cymorth i unrhyw berson digartref i helpu dod o hyd i gartref.

2.2 Yn ogystal mae dyletswydd yn parhau i ddarparu llety dros dro i bobl sydd mewn blaenoriaeth angen os nad yw'n bosib ffeindio rhywle arall iddynt fyw.

2.3 Nid oes rhaid profi blaenoriaeth angen i gael dyletswydd o dan 2.1(i), (ii) a (iii) uchod, ac o ganlyniad mae fwy o bobl sengl yn cael cymorth lle nad oeddynt yn gymwys o dan yr hen ddeddfwriaeth.

**3.0 Effaith y Ddeddf Newydd ar y gwasanaeth**

3.1 Yn sgil y newidiadau i'r Ddeddfwriaeth ddigartrefedd mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o bobl sydd yn gofyn am gymorth.

| **Nifer cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Digartrefedd** | |
|---|---|
| 2014/15 | 560 |
| 2015/16 | 648 |
| 2016/17 | 722 |

Mae'r ystadegau uchod yn dangos cynnydd o 28.9% rhwng 2014/15 a 2016/17.

3.2 Hefyd mae achosion yn gallu bod yn agored am gyfnod llawer hirach oherwydd bod y dyletswydd i atal digartrefedd yn cychwyn o fewn 56 diwrnod i ddod yn ddigartref, ac wedi hynny, os nad yn gallu atal y digartrefedd, mae'r dyletswydd i ddod o hyd i eiddo arall yn parhau am 56 diwrnod pellach. Mae'r baich achosion yn drymach ar swyddogion oherwydd hyn.

3.3 Yn ogystal, mae baich gwaith papur wedi cynyddu oherwydd y gofyn statudol i roi hysbysiad ysgrifenedig i bob ymgeisydd ar ba ddyletswydd sydd yn berthnasol i'w hachos a hefyd hysbysiad pan mae'r dyletswydd hynny yn dod i ben ac yn symud i ddyletswydd newydd.

3.4 Mae swyddogion yn treulio mwy o amser yn chwilio am eiddo fforddiadwy yn y sector breifat ac mae hynny profi'n anodd oherwydd nifer o ffactorau megis newidiadau yn y drefn budd-dal lles, graddfeydd rhent uchel, a diffyg llety un llofft.

3.5 Er bod y niferoedd sy'n mynd i mewn i lety dros dro wedi lleihau, oherwydd y gwaith atal digartrefedd sydd wedi bod yn llwyddiannus, mae'r rhai sydd wedi mynd i mewn i lety dros dro wedi gorfod aros yna am gyfnodau hirach tra yn disgwyl am eiddo addas parhaol.

**4.0 Mesurau**

4.1 Mae'r Uned Digartrefedd yn gorfod adrodd ar nifer o fesurau i Lywodraeth Cymru yn mesur llwyddiant y gwasanaeth yn erbyn dau fesur lleol .
Gwelir dirywiad yn y perfformiad ar y ddau fesur lleol sy'n adlewyrchu'r pwysau sy'n wynebu'r gwasanaeth.

i) Yr amser mae yn cymryd i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r cleient**-**
**77.73** diwrnod yn 2016/17 i'w gymharu â 69.08 diwrnod yn 2015/16

.

ii) Cyfnod a dreulir mewn llety dros dro-
**104.44** diwrnod yn 2016/17 i'w gymharu â 70.52 yn 2015/16

4.2 Serch y dirywiad mae'r gwasanaeth wedi perfformio yn dda o'i gymharu gydag awdurdodau eraill, sydd hefyd yn adrodd cynnydd yn y pwysau gwaith

**5.0 Arian Grant Trosiannol**

5.1 Er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i weithredu’r Ddeddf newydd a chyfarch y dyletswyddau newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian grant trosiannol am gyfnod o dair blynedd. Mae’r grant ar gyfer gwaith sydd yn cael ei dargedu at atal digartrefedd.

5.2 Mae’r arian ychwanegol wedi galluogi’r gwasanaeth i gyflogi tri swyddog ychwanegol dros-dro a chael cronfa atal digartrefedd. Mae’r gwaith pennaf wedi bod yn ymwneud â chydweithio hefo landlordiaid preifat i annog gosod tai i bobl ar incwm isel ar rent fforddiadwy; talu blaendal er mwyn sicrhau eiddo preifat; rhoi cyngor a chymorth ynglŷn â budd-daliadau lles; darparu gwasanaeth penodol ar gyfer pobl yn gadael carchar; a darparu cefnogaeth tenantiaeth i bobol fregus er mwyn sicrhau fod y denantiaeth yn gynaliadwy.

5.3 Bydd y grant trosiannol yn dod i ben **31 Mawrth 2018** ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i unrhyw grantiau pellach ar ôl hynny.

5.4 Heb yr arian trosiannol ni fyddai’r gwasanaeth wedi gallu ymdopi a’r newidiadau na chael cymaint o lwyddiannau atal digartrefedd.

**6.0 Cyd-destun**

6.1 Mae Cyngor Gwynedd ers nifer o flynyddoedd yn rhoi pwyslais ar geisio atal digartrefedd gan ein bod yn credu bod yr ymdrechion yn gwella profiad defnyddwyr ac yn arwain at fwy o sefydlogrwydd i ddefnyddwyr a theuluoedd gan fod modd cynnal rhwydweithiau a gweithredu mewn ffordd mwy cost effeithiol. Mae’r Ddeddf Tai yn atgyfnerthu’r angen i ganolbwyntio ar atal digartrefedd. Fodd bynnag mae nifer o ffactorau yn effeithio ar ein gallu i gael canlyniadau positif ar gyfer y grŵp cleientiaid bregus.

6.2 **Canfod llety addas ar gyfer pobl digartref**
Mae heriau sylweddol o ran canfod eiddo ar gyfer rhai grwpiau penodol, sef pobl sengl a phobl gydag anghenion cymhleth, e.e. pobl hefo problemau iechyd meddwl dwys, pobl yn gadael carchar, pobl hefo problemau cam ddefnyddio alcohol a chyffuriau. Mae nifer cynyddol o bobl hefo anghenion uchel yn cael eu rhyddhau o ysbytai i’r gymuned lle mae adnoddau llety a chefnogaeth wedi diflannu bellach. Yn ogystal mae diffyg cyffredinol mewn eiddo un llofft ac eiddo gyda chefnogaeth yn y Sir.

Cymerir pobl yn gadael carchar fel un enghraifft. Yn 2016/17 roedd Gwynedd yn ail yng Ngogledd Cymru yn y nifer uchaf o bobl yn cael eu cyfeirio o’r carchar (77) ond mae’r nifer o unedau llety a chefnogaeth yn y Sir yn ail isaf.

**6.3 Newid yn y Drefn Budd-dal**

Mae her sylweddol yn deillio o ddiwygio’r drefn budd-daliadau sydd yn cael effaith ar grwpiau penodol ac yn gosod baich ar y gwasanaeth. Mae nifer uchel o bobl yn derbyn budd-dal tai sydd yn llai na rhent preifat a chymdeithasol gan olygu bod rhaid canfod arian ychwanegol i dalu costau llety sydd yn rhoi pwysau o ran cynaliadwyedd tenantiaethau.

6.3.1 Comisiynwyd adroddiad ymchwil gwmni ‘Policy in Practice’ gyda chymorth grant Llywodraeth Cymru i geisio rhagamcanu sut fydd pobl Gwynedd yn cael eu heffeithio gan newidiadau yn y drefn budd-dal ac i amlinellu’r heriau at y dyfodol. Mae’r arolwg yn darogan y bydd rhai grwpiau o fewn ein cymdeithas yn wynebu her sylweddol i geisio cwrdd â chostau tai ac y bydd yn arwain at bwysau ychwanegol ar wasanaethau digartrefedd.

6.3.2 **Crynodeb o brif ganfyddiadau’r ymchwil**

i) Bydd **53.3%** o bobl Gwynedd ar ei cholled wedi trosglwyddo o’r trefniadau budd-dal presennol i dderbyn Credyd Cynhwysol sy’n ganran uwch nac awdurdodau eraill. Nodwyd y bydd llawer o weithwyr tymhorol yn waeth allan o symud yn ôl ar fudd-dal ar derfyn eu cyflogaeth nag oeddynt cyn derbyn gwaith tymhorol.

ii) Bydd **3022** o deuluoedd Gwynedd yn derbyn dros **£5,985,474** y flwyddyn **yn llai** wrth drosglwyddo i Gredyd Cynhwysol. (Bydd Gwynedd yn trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol yn llawn yn Ebrill 2018).

iii) Bydd incwm trigolion Gwynedd **£11m** y flwyddyn y llai yn sgil cyflwyno newid budd-dal a bydd y swm yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

iv) Bydd **94.5%** o bobl Gwynedd sy’n hawlio budd-dal yn waeth allan. Dim ond **5.45 %** fydd yn aros run fath neu yn well allan yn sgil newid yn y trefniadau.

v) Gan fod llai o gyfleoedd swyddi yng Ngwynedd bydd cyfyngu ar opsiynau i symud oddi ar fudd-dal ac i waith parhaol.

vi) **Treth Llofftydd** - Bydd **1147** o bobl Gwynedd yn cael eu heffeithio gan y dreth llofftydd a byddent ar gyfartaledd yn colli **£13.51** yr wythnos gyda 33% o’r rhain yn deuluoedd gyda phlant. Os bydd unigolion yn methu a chyfrannu byddent yn peryglu ei thenantiaethau a fwy tebygol o ddod ar ofyn gwasanaethau digartrefedd

vii) **Lwfans Tai Lleol** - Mae cyfradd y Lwfans Tai Lleol (sef yr uchafswm a ganiateir at daliadau rhent) mewn rhannu o Wynedd ymhlith yr isaf ym Mhrydain. Os bydd y Lwfans yn cael ei rewi ar y lefel bresennol hyd 2020, sy’n fwriad, yna gall y lwfans fod yn annigonol i gyfarch rhenti eiddo cymdeithasol.

viii)'**Top up' rhent** - Gwelwn fod pobl sy'n rhentu yn breifat ac yn derbyn Lwfans eisoes yn gorfod canfod swm o **£24.34** uwchlaw'r Lwfans Tai er mwyn cwrdd ag ymrwymiadau rhent.

ix) **Cap Budd-dal** - Hyd yma mae nifer o deuluoedd wedi effeithio gan y cap a osodwyd ar lefel budd-daliadau a gall y teuluoed golli gyfartaledd £60.08 o fudd-dal tai. Bydd y niferoedd tebygol o gynyddu at y dyfodol Mae'r newid yn taro teuluoedd gyda mwy na 2 o blant ac mae nifer o'r teuluoedd yma yn rhieni sengl.

x) **Pobl Ifanc a Phobl dan 35 mewn tenantiaethau Cymdeithasol**
At y dyfodol bydd yn anodd iawn canfod llety fforddiadwy i unigolion dan 35 oed. Bydd unigolion y derbyn uchafswm o £58.11 yr wythnos yng Ngogledd Gwynedd a £56 yn Ne Gwynedd sydd yn llai na'r rhent cymdeithasol isaf sydd tua £71 ar gyfartaledd. Golyga hyn y bydd cymdeithasau tai yn amharod i osod eiddo gan wybod na fydd y denantiaeth yn gynaliadwy. Petai unigolion yn cyflwyno yn ddigartref bydd baich o ganfod llety yn aros gyda'r awdurdod lleol.

6.3.3 Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd yn y nifer o bobl sydd yn gofyn am gymorth oherwydd fforddiadwyedd eu tenantiaeth yn dilyn newid budd-dal. Mae effaith Credyd Cynhwysol yn amlwg yn barod i'r bobl sengl sydd wedi trosglwyddo i'r budd-dal yma yn dilyn gwneud cais newydd. Rhagwelir mwy o gyflwyniadau blwyddyn nesaf pan mae credyd cynhwysol yn cael ei ymestyn i bawb.

6.3.4 Mae effaith yr uchafswm budd-dal ( cap) yn dangos i deuluoedd hefo nifer o blant hefyd. Mae un enghraifft o deulu hefo pedwar o blant lle mae'r elfen budd-dal tai wedi gostwng i £1.48 yr wythnos ac mae'r rhent yn £90.52 yr wythnos (am eiddo dwy lofft).Rydym wedi cynorthwyo hefo cais am Daliadau Tai Dewisol (TDD) i'r uned budd-dal Tai ac maent wedi caniatáu taliad o £66.78 yr wythnos sydd yn gadael £22.26 yr wythnos i ffeindio tuag at y cost rhent. Yn mis Hydref bydd y TDD yn gostwng i £44.52 yr wythnos. Mae'r eiddo presennol yn rhy fach i'r teulu ac rydym yn ceisio chwilio am eiddo mwy iddynt ond fydd hyn yn golygu bydd y rhent siŵr o fod yn uwch. Mae'r teulu hefo ôl-ddyledion sylweddol yn barod ac yn debygol o ddod yn ddigartref.

## 7.0 CASGLIAD

7.1 Mae'r adroddiad yn datgan bod y gwasanaeth digartrefedd yn wynebu sawl her drwy newidiadau deddfwriaethol a budd-daliadau yn ogystal i'r pwysau ychwanegol. Hefyd, rhaid ystyried yr effaith posib ar chwyddiant rhent yn Ardal Arfon yn sgil datblygu Wylfa Newydd. Mae'r gwasanaeth eisoes yn adnabod bod y galw wedi cynyddu a'r rhagolwg yw y bydd yn parhau i dyfu. Mae yn hanfodol felly ystyried sut fyddwn yn ymateb er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth a'r gallu i reoli gwariant at y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Pwyllgor Craffu -Gofal** |
| **DYDDIAD** | **21ain o Fedi 2017** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Craig ab Iago** |
| **TEITL** | **Adroddiad Tai Gwag 2008-2017** |

**Cyflwyniad**

Mewn cymdeithas ble mae miloedd o gartrefi yn wag a miloedd o ddarpar denantiaid yn aros am lety ar rent, mae tai gwag, yn cael ei hystyried fel adnodd wastraffus. Mae Gwynedd wedi adnabod fel sir gyda un o'r cyfraddau uchaf o dai gwag yng Nghymru gyda amcangyfrif bod 1164 yn wag. Mae'r Adran Tai yn credu mai un ffordd o leddfu'r broblem gynyddol yw drwy ddefnyddio ac addasu yr hyn sydd ar gael i ni yn barod.

Rydym yn credu y dylai dod â cartrefi gwag yn ôl i ddefnydd fod yn flaenoriaeth uchel er mwyn  ymateb i'r galw sylweddol am dai a cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn y Sir. Mae hefyd yn gallu bod yn hwb i wella edrychiad cymunedau a lleihau problemau i gymdogion.

**Trafodaeth**

Sefydlwyd cynllun tai gwag yng Ngwynedd yn 2008 ac ers hynny mae ystod y gweithgareddau a'r ymyraethau wedi datblygu ac esblygu.  Mae trefniadau Cyngor Gwynedd yn cael eu hystyried yn eithaf blaengar ac wedi eu efelychu gan nifer o awdurdodau eraill.

**Diffiniad**

Rydym yn diffinio eiddo gwag fel eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod o 6 mis neu fwy. Mae'r eiddo yn cael ei hadnabod gyda chydweithrediad yr Uned Treth Cyngor ond hefyd mewn ymateb i ymholiadau/cwynion unigol gan gynghorwyr ac aelodau'r  cyhoedd.

Trwy ganolbwyntio ar dai sydd wedi bod yn wag ers dros chwe mis, nod y fenter Tai Gwag yw codi ymwybyddiaeth o'r gwahanol faterion sy'n ynghlwm a thai gwag, y problemau y maent yn eu hachosi i'n cymunedau, ac annog y perchnogion i ailddefnyddio eu heiddo er mwyn creu llety o safon a lleddfu'r argyfwng tai. Y dymuniad yw na ddylai  tai yn aros yn wag am gyfnodau maith.

Rhwng 2008-2017 mae'r Gwasanaeth Tai wedi llwyddo i ddôd a **455** o dai yn nôl i ddefnydd ac yn sgil hyn wedi llwyddo i  gartrefu **915** o bobol Gwynedd. Mae hyn

wedi bod o gymorth i leihau'r pwysau ar restrau aros am eiddo cymdeithasol ac hefyd wedi golygu bod eiddo oedd yn dirywio ac yn gallu bod yn broblemus yn gallu cael ei adfer.

Rhwng 2008-2017 mae'r Cyngor wedi busoddi dros £4 miliwn mewn tai gwag, sydd wedi denu buddsoddiad preifat ychwanegol o £10.5 miliwn. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o **£14.5 miliwn** sydd wedi ei wario yng Ngwynedd ar eiddo, nwyddau, llafur, morgeisi ayyb.

Cost – Mae'r gost gyfartalog o ddod ac eiddo yn ôl i ddefnydd oddeutu £46k mae hyn yn llawer is na chost o adeiladu eiddo cymdeithasol newydd ac yn gallu bod yn ffordd gyflym o gael cyflenwad newydd. Yn y blynyddoedd diwethaf mae yr Uned wedi bod yn dod a bron i **60** o unedau yn nôl yn flynyddol. Yn yr un cyfnod gwelwn bod tua 30 eiddo cymdeithasol ychwanegol yn cael ei hadeiladu.

Mae'r mentrau sydd ar gael ganddom yn cael effaith sylweddol ar leihau'r nifer o dai gwag yng Ngwynedd, ac yn cyfrannu'n sylweddol i'r economi leol. Gwyddom fod cyfran uchel o'r arian yn cael ei wario gyda chwmniau lleol.

Oherwydd fod tim Tai Gwag penodol o fewn y Cyngor, mae'r Gwasanaeth Tai wedi bod mewn sefyllfa i allu manteisio ar gronfeydd ychwanegol gan y Llywodraeth fyddai wedi bod yn anodd eu dennu a'i gweinyddu fel arall.

Er mwyn gweithredu'r mentrau ac uchafu'r gwahaniaeth i'r niferoedd o dai gwag yng Ngwynedd mae angen adnoddau. Mae ymyrraethau yn y maes yn gysylltiedig a lefel y buddsoddiad ac mae ymrywmiad y Cyngor yn bwysig i lwyddiant y fenter.

Mae nifer o wasanaethau o fewn y Cyngor, wedi elwa o waith yr Uned Tai Gwag i ddarparu unedau fforddiadwy yn arbennig yr uned digartref, uned oedolion bregus a phobl ar y Gofrestr Tai Gyffredin yng Ngwynedd.

**Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac cartrefi gwag**

Diwedd Tachwedd 2016 fe gymeradwyodd y Cyngor gynnig i gynyddu lefel y treth Cyngor fyddai yn ddyledus ar ail gartrefi a eiddo gwag hir dymor o 50%, ac yn unol a gofynion statudol i roddi rhybudd o 12 mis o'r bwriad. Rhagwelwn y bydd y cynllun yn cael ei weithredu o fis Ebrill 2018 ymlaen ac mae cynigion yn cael eu datblygu fel y gall y Cyngor ystyried defnyddio rhan o'r premiwm yma at ddibenion dod a tai gwag yn ôl i ddefnydd.

## MENTRAU TAI GWAG

Rydym wedi datblygu amrywiaeth o opsiynau hyblyg a all fod o gymorth i berchnogion tai gwag wneud y gorau o'u heiddo. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys:

### Gwybodaeth a Chyngor

Mae'r Uned wedi datblygu arbenigedd yn y maes ac yn gallu roi arweiniad diduedd yn rhad ac am ddim i berchnogion tai gwag ynglyn a gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt, boed yn dymuno gwerthu, rhentu neu adnewyddu eu tai gwag.

### Grant Tai Gwag

Mae grantiau o hyd at £20,000 neu 75% o gyfanswm cost y gwaith ar gael i gynorthwyo gyda chostau adnewyddu a throsi tŷ gwag yn nol i ddefnydd. Rhaid i'r tŷ a adnewyddir fod yn rhan o gynllun lesu am gyfnod o bum mlynedd, neu ar gael i bobl oddi ar restr aros y Cyngor neu cleientau gwasanaethau cymdeithasol.

### Cynllun Troi Tai yn Gartrefi

Benthyciadau di-log sydd yn ad-daladwy rhwng 2-5 mlynedd sydd yn galluogi pobl adnewyddu, gwella ac addasu adeiladau gwag yn gartrefi. Rhaid i'r eiddo fod wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy. Gellir cael hyd at £25,000 ar gyfer tŷ unigol; £150,000 yw'r benthyciad uchaf posib ar gyfer pob ymgeisydd. Mae arian yma wedyn yn cael ei gylchdroi ac ar gael i'w ail fuddsoddi.

### Cynllun Benthyciad Gwella Cartref – (Llywodraeth Cymru)

Benthyciadau di-log o £1,000 i £25,000 i gynorthwyo perchnogion eiddo sydd angen gwaith adnewyddu. Ar gael i Berchnogion preswyl, landlordiaid, datblygwyr ac elusennau i gynorthwyo gyda gwneud cartref yn gynnes a diogel. Mae'r benthyciadau yn cynnwys ffi weinyddol o 15% y gellir ei ychwanegu at y benthyciad. Tymor benthyciad i berchenogion preswyl yw 7 mlynedd, 5 mlynedd i landlordiaid / cwmnïau. Gall benthyciadau Perchnogion Preswyl cael ei ymestyn i 10 mlynedd, yn ddibynnol ar fforddiadwyaeth.

### Cynllun Benthyciad Blaendal Morgais Prynwyr Tro Cyntaf

Cynllun yw hwn i gynnig benthyciadau i gwrdd a gofyn blaendal gan ddarparwyr morgeisi ar gyfer rhai sydd yn prynu ty am y tro cyntaf. Mae'r pwyslais ar gynorthwyo prynwyr tro cyntaf i brynu tai gweigion a chael troed ar y farchnad dai. Mae arian o fewn y cynllun yma yn cylchdroi.

### Grant Rheoli Prosiect

Cefnogaeth dechnegol hyd at £5,000 (o werth) mewn perthynas ag atgyweirio ac adnewyddu eiddo. Mae hwn ar gael i berchnogion eiddo gwag sy'n derbyn naill ai grant neu fenthyciad gan y Cyngor.

**Rhyddhad Treth Ar Werth**
Gall y Cyngor helpu i ostwng neu gael gwared ar y TAW ar yr holl ddeunyddiau a ddefnyddir wrth adnewyddu tŷ gwag. Os yw eiddo wedi bod yn wag rhwng 2 a 10 mlynedd, daw'r TAW ar y deunyddiau i lawr i 5%. Os yw eiddo wedi bod yn wag am dros 10 mlynedd, gellir gostwng y TAW i 0%.

**Buddsoddiad Hyd Yma**

| **Cynllun** | **Gwariant y Cyngor** | **Buddsoddiad Preifat** | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Grantiau Tai Gwag (2008 >) | £1,892,131 | £4,537,804 | **£6,429,935** |

| **Cynllun** | **Gwariant y Cyngor** | **Buddsoddiad Preifat** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Benthyciadau Adnewyddu (2012>) | £436,201 | £831,375 | **£1,267,576** |

| **Cynllun** | **Gwariant y Cyngor** | **Buddsoddiad Preifat** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Houses into Homes (2012>) | £882,300 | £3,063,996 | **£3,946,296** |

| **Cynllun** | **Gwariant y Cyngor** | **Buddsoddiad Preifat** | **Gwariant ar Prynu Tai yn Gwynedd** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau Morgais (2012>) | £527,650 | £120,250 | £1,809,500 | **£2,457,400** |

| Cynllun | Gwariant y Cyngor | Buddsoddiad Preifat | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi (2015>) | £171,000 | £256,399 | **£384,399** |

| Cyfanswm y Cynllun | Gwariant Cynlluniau Tai Gwag | Buddsoddiad Preifat | Cyfanswm wedi wario yng Ngwynedd 2008-2017 |
|---|---|---|---|
| Cynllun Tai Gwag (2008 > 2017) | £3,912,282 | £10,506,824 | **£14,419,106** |

**Gwerthuso Opsiynau Menter Tai Gwag – Cynllun Strategol - 4 Mlynedd**

Mae'r tabl isod yn amlinelllu allbynnau fyddai yn deillio o'r gynlluniau ar sail lefel presennol o fuddsoddiad o fewn y Cynllun Cyfalaf y Cyngor. Gellid addasu hyn pe byddai adnodd ychwanegol.

| | | FFEITHIAU CALED: | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Menter** | **Opsiwn** | **Nifer a ellir rhoi cymorth iddynt** | **Marchnad** | **Costau caled** | **Incwm caled** |
| **1. Cynllun Grant Tai Gwag Gwynedd** | Uchafswm grant £20,000 yr uned | 50 uned (ar sail talu uchafswm grant)<br><br>Fel rhan o'r amodau grant dylai yr 50 uned fod yn cael eu meddiannu gan bobl digartref, pobl oddi ar gofrestrau aros tai neu pobl lleol. | Oes – llawer iawn yn dangos diddordeb cael grant.<br><br>25 o ymgeiswyr ar restr aros. | £200k y flwyddyn miliwn o gyllid grant ac amser swyddogion i weinyddu'r grant. | Pobl Gwynedd yn cael eu cartrefu am gyfnod **o 5 mlynedd.**<br><br>Ad-daliad grant (ar sliding scale) os gwerthir yr eiddo o fewn 5 mlynedd o'i dderbyn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2. Cynllun benthyciad di-log (wedi ei selio a'r gynllun Gwella Cartref Llywodraeth Cymru)** | Uchafswm benthyciad £25,000 yr uned | 40 (ar sail benthyg yr uchafswm, rhaid nodi efallai daw fwy o unedau yn nôl i ddefnydd) | Cynllun ddim wedi ei hysbysebu yn eang oherwydd diffyg cyllid. | £250k o gyllid benthyciad ac amser swyddogion i weinyddu'r system benthyciadau | Arian benthyciad yn dod yn nol i'r Cyngor o fewn 7 -10 mlynedd.<br><br>15% ffi gweinyddol. |
| **3. Cynllun Benthyciadau Blaendal Morgais Prynwyr Tro Cyntaf** | Uchafswm benthyciad £30,000 yr uned | 33 (ar sail benthyg yr uchafswm, rhaid nodi efallai daw fwy o unedau yn nôl i ddefnydd) | Oes – llawer iawn yn dangos diddordeb cael benthyciad blaendal. | £270k y flwyddyn o gyllid benthyciad ac amser swyddogion i weinyddu'r system benthyciadau<br><br>£2.5 mil ffi gweinyddu Street UK | Arian benthyciad yn dychwelyd i'r Cyngor o fewn 7 mlynedd.<br><br>Os na fydd y benthycaid yn cael ei talu nol i'r Cyngor mewn 7 mlynedd mi fydd y ddyled yn troi yn 'fenthyciad rhan ecwiti' yn seiliedig ar werth yr eiddo. |

**CASGLIADAU**

Credwn bod yr adroddiad yn arddangos yn glir y cynnydd amlwg a fu yn y blynyddoedd diweddar a'r cyfraniad amlwg mae'r Cynllun wedi wneud mewn sawl maes. Credwn bod y cynlluniau yn cynnig gwerth arbennig gan fod unrhyw fuddsoddiad gan y cyngor yn cael ei uchafu gan gronfeydd eraill.

Yn sicr, mae cyfleon i wneud mwy ond mae lefel yr allbynnau yn ddibynnol ar ymrwymiad cychwynnol y Cyngor. O edrych ar y dyfodol mae cyfleon i ystyried i ail fuddsoddi unrhyw arian ychwanegol ddaw o gynllun Treth Cyngor Ail Gartrefi a Treth Eiddo Gwag i gynorthwyo yn y gwaith hwnnw a bydd cynigion yn cael eu cyflwyno i ystyriaeth y Cabinet.

Mae yr Uned wedi datblygu arbenigedd yn y maes ac wedi ymdrechu i sicrhau bod y Cyngor a pobl Gwynedd yn elwa mewn gwahanol ffyrdd.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Craffu Gofal |
| Dyddiad | 21 Medi 2017 |
| Pwnc | Iechyd ym Mlaenau Ffestiniog |
| Cadeirydd | Cyng. Eryl Jones Williams, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal |
| Awdur | Gareth James, Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu |

Cefndir

1 Cynhaliwyd Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 4 Medi 2017 yn deillio o'r Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Glyn Daviels I gyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin 2017:

**'Rwyf yn cynnig bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty a thrigolion Blaenau Ffestiniog i bwyso ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac awdurdodau perthnasol er sicrhau bod cyfleusterau priodol ac angenrheidiol yn yr ysbyty newydd sy'n cael ei godi yn y dref.**

**I'r perwyl hyn, golygaf fod cyfleusterau sy'n arferol i'w canfod mewn ysbytai lleol, megis uned pelydr x, mân ddamweiniau a nifer ddigonol o welyau i gleifion preswyl. O ystyried fod Blaenau Ffestiniog y drydedd dref fwyaf yng Ngwynedd, ac hefyd fod ymateb y mwyafrif llethol o'r trigolion mewn refferendwm diweddar yn mynnu fod y dref yn haeddu gwell triniaeth, credaf nad oes unrhyw reswm i'r Cyngor beidio cefnogi'r cynnig hwn.**

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater yn syth i'r Pwyllgor Craffu Gofal a'i drafod cyn gynted ag y bo'r modd."**

2 Gwahoddwyd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog I gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol ynglŷn ag addasrwydd y ddarpariaeth iechyd arfaethedig ar gyfer trigolion Blaenau Ffestiniog a'r cylch.

3 Yn dilyn y drafodaeth, cytunwyd ar chwe argymhelliad, ond y byddai union eiriad terfynol yr argymhellion hynny yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf o'r pwyllgor am gymeradwyaeth. Mae'r argymhellion hyn fel a ganlyn:

**(i) Bod y Pwyllgor Craffu Gofal yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i rannu'r holl wybodaeth gefndir fu'n rhan o'r penderfyniad gwreiddiol i newid darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog.**

**(ii) Bod y Pwyllgor Craffu yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fonitro gwybodaeth a data mewn perthynas ag effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd cyfredol yn ardal Blaenau Ffestiniog a llesiant ei thrigolion yn rheolaidd ac i ymrwymo i**

**addasu/newid y ddarpariaeth os oes tystiolaeth i gyfiawnhau hynny. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n fuddiol pe byddai'r gwaith yma'n cael ei wneud gan asiantaeth annibynnol neu o leiaf yn cael ei gadarnhau gan asiantaeth annibynnol a bod yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno i sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal ymhen amser rhesymol.**

**(iii) Yn deillio o'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Bwyllgor Amddiffyn Ysbyty Blaenau Ffestiniog am ddiffyg ymateb i ddeisebau a gohebiaeth yn y gorffennol, bod y Bwrdd yn rhoi ystyriaeth fanwl i ddiffygion ymgysylltu ac ymgynghori yn y gorffennol er mwyn gwella'u trefniadau ar gyfer y dyfodol. Anogir y Bwrdd Iechyd i gyfathrebu'n rheolaidd ac effeithiol gyda thrigolion ardal Blaenau Ffestiniog mewn perthynas â darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau iechyd lleol.**

**(iv) Gofynnir i'r Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Aelod Cabinet Gofal gomisiynu asesiad o hwylustod a hygyrchedd gwasanaethau iechyd trwy gludiant cyhoeddus a chymunedol o fewn dalgylch Ysbyty Alltwen. Tra byddai'r flaenoriaeth i'w roi ar y dalgylch yma, wedi ei gwblhau, gellir ystyried os oes budd i gynnal asesiadau tebyg mewn ardaloedd eraill.**

**(v) Bod yr angen am gartrefi addas ar gyfer pobl hŷn yn cynnwys y ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol yn ardal Blaenau Ffestiniog yn cael ei wyntyllu'n llawn ar y cyd gan yr Aelod Cabinet Gofal, Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant a'r Bwrdd Iechyd ynghyd â Phartneriaeth Tai Gwynedd.**

**(vi) Bod y Pwyllgor Craffu yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd I gydweithio'n agos a chymryd camau ymarferol priodol I ricriwtio staff gofal ac iechyd fel bod timau llawn yn eu lle I gynnal gwasanaethau yn ardal Blaenau Ffestiniog ac ar draws y Sir.**

4 Gofynnir I Aelodau'r Pwyllgor Craffu gytuno ar y geiriad terfynol.